# Cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol

## Canllawiau Drafft i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

**Canllawiau Drafft**

Cyhoeddwyd 15 Mai 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Gorffennaf 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ....................................................................................................... 3

2. Canllawiau ..................................................................................................... 4

# 1. Trosolwg

1.1 Mae gan y BBC, S4C a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (trwyddedeion Sianel 3, 4 a 5) ('darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus' gyda'i gilydd), gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol sy'n mynnu eu bod yn cynnwys nifer sylfaenol o gynyrchiadau gwreiddiol ar eu gwasanaethau.

1.2 Mae cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gofalu bod cynnwys ar gael sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau gwahanol, traddodiadau a diddordebau diwylliannol yn y DU. Yn unol â hynny, mae'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol yn nodi lefel sylfaenol o gynnwys y mae'n rhaid ei gomisiynu neu ei gynhyrchu, ac sydd wedyn ar gael gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

1.3 Gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C gyflawni eu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol ar wasanaethau rhaglenni ar-alw ('ODPS') sy'n wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig ('IPS') neu'n rhan o hynny.[1]

1.4 O dan Orchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004[2] ('y Gorchymyn'), caiff Ofcom bennu na fydd cynyrchiadau gwreiddiol o fath penodol yn cyfrif tuag at fodloni amod cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol.

1.5 Mae'r Gorchymyn hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi canllawiau ar benderfynu a yw rhaglen yn bodloni'r gofynion hyn.

1.6 Nodir y Canllawiau hyn yn y ddogfen hon. Rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C roi sylw i'r Canllawiau hyn.

1.7 Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn nodi bod yn rhaid i'r BBC hefyd ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Ofcom ynghylch beth sy'n gallu cael ei ystyried yn "gynhyrchiad gwreiddiol", ac o ganlyniad, mae'r Canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r BBC at ddibenion ei gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, i'r graddau a nodir isod. Gan fod y cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a osodwyd ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU yn mynnu bod cynyrchiadau gwreiddiol yn cael eu darlledu ar sianeli penodol y BBC, nid yw'r canllawiau ym mharagraffau 2.30 i 2.31 isod mewn perthynas â'r gwasanaeth y gellir darparu rhaglen arno er mwyn cyfrif tuag at y cwotâu yn berthnasol nac yn gymwys i'r BBC.

1.8 Mae gan Ofcom ddyletswydd hefyd o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf') i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r cwotâu hyn. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae Ofcom yn cynnal adolygiadau cydymffurfio a monitro. Mae'r Canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i randdeiliaid ynghylch y diffiniadau y byddwn yn eu defnyddio wrth gynnal ein hadolygiadau monitro a chydymffurfio ac maen nhw'n ategu'r darpariaethau statudol a'r amodau trwydded ynghylch cynyrchiadau gwreiddiol.

1.9 Daw'r canllawiau hyn i rym mewn perthynas â theitlau a ddarlledir o 1 Ionawr 2026 ymlaen.

---

[1] Gwasanaeth y mae modd cael gafael arno dros y rhyngrwyd yw "gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd (IPS) dynodedig"; ei "brif ddiben" yw darparu rhaglenni i ddefnyddwyr, ac mae wedi cael ei "ddynodi" gan Ofcom at ddibenion y Ddeddf, gweler adran 362AA.

[2] Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Darlledu (Gwneud Rhaglenni Rhanbarthol) a Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) (Diwygio) 2025.

# 2. Canllawiau

2.1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar ba raglenni sy'n gallu bod yn gynyrchiadau gwreiddiol ac sy'n gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

2.2 Rydym hefyd yn darparu canllawiau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, gydag enghreifftiau ymarferol, ynghylch sawl gwaith y gall rhaglen gyfrif tuag at gyflawni cwota yn dibynnu ar ei phatrwm rhyddhau.

## Diffiniad o dermau

2.4 Yn yr adran hon rydym ni'n nodi diffiniadau o rai termau allweddol a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Rhaglenni dal i fyny** | Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf sydd ar gael ar-lein am gyfnod byr ar ôl darlledu'n llinol ar sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C. |
| **Rhaglenni catalog** | Rhaglenni neu gyfres sydd ar gael ar-lein am gyfnod hirach fel rhan o gatalogau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.<br>Fel arfer, mae hyn yn setiau bocs neu'n gyfresi archif o raglenni gwreiddiol o'r DU a ddangoswyd am y tro cyntaf, sydd wedi cael eu darlledu'n llinol o'r blaen ar sianel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C. |
| **Cyd-gomisiynu / Cydgynhyrchu** | Pan fydd dau neu fwy o gwmnïau cynhyrchu yn comisiynu rhaglen gyda'i gilydd ac yn cydweithio ar gyllido a datblygu'r cynhyrchiad.<br>Gallai hyn hefyd gynnwys dwy gangen ar wahân o'r un sefydliad yn comisiynu cynhyrchiad – fel comisiynwyr rhaglenni rhwydwaith darlledwr a chomisiynwyr rhaglenni rhanbarthol. |
| **Sianeli portffolio masnachol** | Sianeli sy'n cael eu trwyddedu a'u gweithredu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ond nad ydynt yn sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r enghreifftiau presennol o'r rhain yn cynnwys ITV2, E4, a 5Star. |
| **Ailddarllediadau ar draws sianeli** | Rhaglenni a oedd wedi cael eu darlledu am y tro cyntaf ar sianel portffolio masnachol neu sianel fasnachol arall ac sy'n cael eu darlledu eto ar sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (e.e. rhaglen sy'n cael ei darlledu am y tro cyntaf ar ITV2 ac yna'n cael ei darlledu ar ITV1). |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf** | Rhaglenni a gomisiynir gan neu ar gyfer prif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (neu S4C) neu gyda'r bwriad iddynt fod ar gael am y tro cyntaf yn y DU ar brif sianel linol (neu S4C) neu ar wasanaeth rhaglenni ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, yn y flwyddyn gyfeirio.[3]<br><br>Rhaid i raglen o'r DU sy'n cael ei dangos am y tro cyntaf hefyd fod yn rhaglen Ewropeaidd[4]. |
| **Ailddarllediadau llinol** | Rhaglenni sydd wedi bod yn rhaglenni gwreiddiol o'r DU a gafodd eu dangos am y tro cyntaf ac sy'n cael eu darlledu ar y sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (neu S4C), neu sydd wedi bod ar gael ar y gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, a gaiff eu darlledu eto ar yr un sianel linol. Gall y rhain gynnwys ailddarllediadau yn ystod yr un flwyddyn ac ailddarllediadau o raglenni a ddarlledwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol. |
| **Rhaglenni rhanbarthol** | Rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd ar lefelau rhanbarthol. Mae'r rhain yn ddarllediadau unigryw ar gyfer pob ardal drwyddedig, fel newyddion rhanbarthol. |

## Cymhwysedd ar gyfer cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol

2.5 Yn yr adran hon rydym ni'n rhoi canllawiau ynghylch pa raglenni sy'n gymwys i gael eu hystyried yn gynhyrchiad gwreiddiol.

## Mathau o raglenni sy'n gymwys

### Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus Trwyddedig ac S4C

2.6 Mae'r is-adran hon yn cynnwys canllawiau ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C yn unig.

2.7 Er mwyn i raglenni gael eu hystyried yn "gynyrchiadau gwreiddiol" rhaid iddynt gael eu comisiynu ar gyfer prif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (neu S4C) neu IPS dynodedig, yn hytrach na chael eu prynu. Rhaid i'r rhaglen gael ei chynhyrchu gyda'r bwriad o'i dangos am y tro cyntaf yn y DU ar brif wasanaeth y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus neu ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny. Rhaid i'r rhaglen hefyd fod yn "Rhaglen Ewropeaidd" – gweler Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 (fel y'i diwygiwyd) am ragor o fanylion.

2.8 Rydym ni'n cyfrifo'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol gan ddefnyddio amser rhedeg. Ni all amser cau, telesiopa (os yw'n berthnasol), hysbysebu, rhagflasau a deunyddiau hyrwyddo gyfrif fel "cynyrchiadau gwreiddiol" na thuag at gyflawni'r cwota.

2.9 Gall cwota cynyrchiadau gwreiddiol gael ei gyflawni gan raglenni sy'n cael eu comisiynu gan ddarlledwyr gan adnoddau cynhyrchu mewnol neu gynhyrchwyr allanol. Does dim modd i raglenni sy'n cael eu prynu gyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol.

[3] Gweler Erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn, Amodau 3.7.2 o Drwydded Weithredu'r BBC.
[4] Gweler Erthygl 5 o'r Gorchymyn.

2.10 Gellir ystyried cynyrchiadau o'r fath fel rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud neu eu comisiynu gan y darlledwr os oes mwy na 25% o gost y rhaglen wedi cael ei thalu gan y darlledwr y bydd y rhaglen yn ymddangos ar ei wasanaeth.

2.11 Mewn achosion o gydgynhyrchu/cyd-gomisiynu rhwng darlledwyr, os yw pob un yn talu o leiaf 25% o gost y rhaglen, gall pob comisiynydd hawlio'r rhaglen honno tuag at ei gwota cynyrchiadau gwreiddiol, lle bo hynny'n berthnasol.

2.12 Mae cynhyrchiad gwreiddiol sy'n cael ei ddangos yn rhyngwladol yn gyntaf (h.y. y tu allan i'r DU) yn dal yn gallu cyfrif tuag at y cwotâu, ar yr amod ei fod yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y DU ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (neu S4C), neu wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig neu'n rhan o hynny.

2.13 Yn achos cyd-gomisiynau, rhaid i'r dangosiad cyntaf yn y DU fod ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (neu S4C) neu ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, er mwyn cyfrif tuag at gyflawni'r cwota.

2.14 Er mwyn i raglenni sydd ar gael am y tro cyntaf ar yr IPS dynodedig gyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, rhaid i'r rhaglen fod wedi bod ar gael ar-lein yn unig, am ddim, am o leiaf 30 diwrnod (h.y., ystyrir bod rhaglen "ar gael" at ddibenion y cwotâu ar ddiwedd y cyfnod 30 diwrnod). Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i raglenni newyddion na digwyddiadau chwaraeon.[5] Mae hyn yn golygu mai dim ond unwaith y byddai rhaglen a fydd ar gael ar yr IPS dynodedig, ac yna'n cael ei darlledu ar y brif sianel o fewn 30 diwrnod, yn cyfrif yn erbyn y cwotâu. Mae hefyd yn golygu na fyddai rhaglen sydd ar gael ar-lein ac yna'n cael ei darlledu ar sianel portffolio masnachol o fewn 30 diwrnod yn gallu cyfrif, gan na fyddai'n cyfrif fel rhaglen a fyddai'n cael ei "dangos am y tro cyntaf" ar yr IPS dynodedig. Rydym yn amlinellu rhai enghreifftiau o sut mae hyn yn gweithio ar gyfer gwahanol batrymau rhyddhau yn yr adran nesaf.

2.15 Pan fydd cyfnod 30 diwrnod rhaglen o fod ar gael ar-lein rhwng mis Rhagfyr un flwyddyn ac Ionawr un arall, yna ar ddiwedd y cyfnod o 30 diwrnod, ystyrir ei bod ar gael yn y flwyddyn gyntaf.[6]

2.16 Gall rhaglenni rhanbarthol sy'n cael eu darlledu ar wasanaeth rhanbarthol Sianel 3 gyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol os cafodd y rhaglen ei chomisiynu gan, neu ar gyfer, y gwasanaeth rhanbarthol hwnnw ar Channel 3, gyda'r bwriad o'i dangos am y tro cyntaf ar y gwasanaeth rhanbarthol hwnnw. Rhaid i'r rhaglen honno fod wedi bod ar gael hefyd gan y trwyddedai hwnnw ar ei wasanaeth llinol rhanbarthol, neu drwy ei gynnwys yn ei IPS dynodedig.

## BBC

2.17 Mae'r is-adran hon yn berthnasol i'r BBC yn unig.

2.18 Rhaid i raglenni fod wedi cael eu comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU, yn hytrach na'u caffael, er mwyn eu hystyried yn gynyrchiadau gwreiddiol. Rhaid i'r rhaglen gael ei chynhyrchu gyda'r bwriad o'i dangos am y tro cyntaf yn y DU ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU. Rhaid i'r rhaglen hefyd fod yn "Rhaglen Ewropeaidd" – gweler Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 (fel y'i diwygiwyd) am ragor o fanylion.

---

[5] Adrannau 278B(2)(c) a 264(8C) o'r Ddeddf

[6] Adran 278B(3) o'r Ddeddf.

2.19 Rydym ni'n cyfrifo'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol gan ddefnyddio amser rhedeg. Ni all amser cau, telesiopa (os yw'n berthnasol), hysbysebu, rhagflasau a deunyddiau hyrwyddo gyfrif fel "cynyrchiadau gwreiddiol" na thuag at gyflawni'r cwota.

2.20 Gall cwota cynyrchiadau gwreiddiol gael ei gyflawni gan raglenni sy'n cael eu comisiynu gan ddarlledwyr gan adnoddau cynhyrchu mewnol neu gynhyrchwyr allanol. Does dim modd i raglenni sy'n cael eu prynu gyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol.

2.21 Gellir ystyried cynyrchiadau o'r fath fel rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud neu eu comisiynu gan y darlledwr os oes mwy na 25% o gost y rhaglen wedi cael ei thalu gan y darlledwr y bydd y rhaglen yn ymddangos ar ei wasanaeth.

2.22 Mewn achosion o gydgynhyrchu/cyd-gomisiynu rhwng darlledwyr, os yw pob un yn talu o leiaf 25% o gost y rhaglen, gall pob comisiynydd hawlio'r rhaglen honno tuag at ei gwota cynyrchiadau gwreiddiol, lle bo hynny'n berthnasol.

2.23 Mae cynhyrchiad gwreiddiol sy'n cael ei ddangos yn rhyngwladol yn gyntaf (h.y. y tu allan i'r DU) yn dal yn gallu cyfrif tuag at y cwotâu, ar yr amod ei fod yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y DU ar Wasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU.

2.24 Yn achos cyd-gomisiynau, rhaid i'r rhaglen gael ei dangos am y tro cyntaf yn y DU ar Wasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU er mwyn cyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu.

## Ailddarllediadau a deunydd archif

2.25 Mae'r canllawiau yn yr adran hon ynghylch ailddarllediadau ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, yn berthnasol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac i S4C yn unig.

2.26 Gall ailddarllediadau o raglenni gwreiddiol ar y brif sianel linol gyfrif tuag at y cwotâu, ar yr amod bod y rhaglen wedi'i chomisiynu'n wreiddiol ar gyfer y sianel neu'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.

2.27 Mae cynyrchiadau gwreiddiol sydd ar gael am y tro cyntaf ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, yn gallu cyfrif eto os ydynt yn cael eu hailddarlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, os oedd y rhaglen ar gael ar-lein yn unig, am ddim, am o leiaf 30 diwrnod.

2.28 Ni chaiff rhaglenni sydd ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, gyfrif tuag at gwota os ydynt eisoes wedi cael eu darlledu ar deledu llinol. Mae hyn yn golygu na all rhaglenni dal i fyny na rhaglenni catalogau gyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu.

2.29 Nid yw ailddarllediadau ar draws sianeli yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu.

# Enghreifftiau ymarferol

2.30 Mae'r enghreifftiau canlynol yn berthnasol i gyflawni cwotâu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C yn unig. Rydym ni wedi nodi'r gwahanol batrymau argaeledd a allai godi ar gyfer cynhyrchiad gwreiddiol, a sut y gellir cyfrif y rhaglen yn erbyn y cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol mewn blwyddyn galendr benodol.

2.31 Rydym ni wedi grwpio'r rhain yn ôl natur rhyddhau, ar-lein a llinol. Ym mhob achos, ni all rhaglenni dal i fyny na rhaglenni catalogau gyfrif yn erbyn cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol.

## Comisiwn ar-lein yn gyntaf

| Disgrifiad byr (yn ôl trefn rhyddhau) | Disgrifiad o batrwm rhyddhau teitl y rhaglen wreiddiol | Cymhwysedd ar gyfer cwota |
|---|---|---|
| Rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.<br>Darllediad llinol ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **o fewn 30 diwrnod.**<br>Dim ailddarllediad llinol. | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>2. Mae'r rhaglen wedyn yn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus am y tro cyntaf cyn pen 30 diwrnod i'w rhyddhau ar-lein am y tro cyntaf. | Dim ond unwaith y gall y rhaglen gyfrif yn erbyn cwota. |
| **Rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.**<br>Darllediad llinol ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **ar ôl 30 diwrnod.**<br>**Dim ailddarllediad llinol.** | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>2. Bydd y rhaglen wedyn yn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus am y tro cyntaf ar ôl 30 diwrnod i'w rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein. | Caiff y rhaglen gyfrif tuag at y cwota ddwywaith. |

| Disgrifiad byr (yn ôl trefn rhyddhau) | Disgrifiad o batrwm rhyddhau teitl y rhaglen wreiddiol | Cymhwysedd ar gyfer cwota |
|---|---|---|
| Rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.<br>Darllediad llinol ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **o fewn 30 diwrnod.**<br>Ailddarllediad ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>2. Mae'r rhaglen wedyn yn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus am y tro cyntaf cyn pen 30 diwrnod i'w rhyddhau ar-lein am y tro cyntaf.<br>3. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu'n ddiweddarach ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | Caiff y rhaglen gyfrif tuag at y cwota ddwywaith.<br>Oherwydd bod y rhaglen yn cael ei rhyddhau ar-lein ac yn llinol am y tro cyntaf o fewn cyfnod o 30 diwrnod, dim ond unwaith y gall y rhaglen gyfrif yn erbyn y cwota. Fodd bynnag, gellir cyfrif ailddarllediad llinol y rhaglen. |
| Rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.<br>Darllediad llinol ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **ar ôl 30 diwrnod.**<br>Ailddarllediad ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>2. Bydd y rhaglen wedyn yn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus am y tro cyntaf 30 diwrnod ar ôl ei rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.<br>3. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu'n ddiweddarach ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | Caiff y rhaglen gyfrif tuag at y cwota dair gwaith.<br>Oherwydd bod y rhaglen ar gael ar-lein yn unig am fwy na 30 diwrnod, gall gyfrif tuag at y cwota, gyda'r darllediadau llinol canlynol yn gallu cyfrif fel ailddarllediadau. |

| Disgrifiad byr (yn ôl trefn rhyddhau) | Disgrifiad o batrwm rhyddhau teitl y rhaglen wreiddiol | Cymhwysedd ar gyfer cwota |
|---|---|---|
| Rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.<br>Rhyddhau'n llinol ar sianel portffolio nad yw'n sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **o fewn 30 diwrnod.**<br>Ailddarllediad llinol ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>2. Bydd y rhaglen wedyn yn cael ei darlledu am y tro cyntaf ar sianel portffolio masnachol o fewn 30 diwrnod i gael ei rhyddhau ar-lein am y tro cyntaf.<br>3. Bydd y rhaglen wedyn yn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | Ni all y rhaglen gyfrif tuag at y cwota o gwbl.<br>Ni all y rhaglen sydd wedi'i rhyddhau ar-lein gyfrif tuag at y cwota oherwydd ni fydd wedi bod ar-lein yn unig am 30 diwrnod. Mae hyn hefyd yn golygu bod ailddarllediad llinol y rhaglen ar y brif sianel yn ailddarllediad ar draws sianeli. |
| Rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein.<br>Rhyddhau'n llinol ar sianel portffolio nad yw'n sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **ar ôl 30 diwrnod.**<br>Ailddarllediad llinol ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>2. Bydd y rhaglen wedyn yn cael ei darlledu am y tro cyntaf ar sianel portffolio masnachol ar ôl 30 diwrnod i gael ei rhyddhau ar-lein am y tro cyntaf.<br>3. Bydd y rhaglen wedyn yn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. | Caiff y rhaglen gyfrif tuag at y cwota ddwywaith.<br>Gall rhyddhau ar-lein gyfrif oherwydd bydd y rhaglen wedi bod ar gael ar-lein yn unig am 30 diwrnod. Gan fod hyn yn golygu bod modd ystyried rhaglen yn gynhyrchiad gwreiddiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, gall gyfrif tuag at y cwota pan fydd yn cael ei hailddarlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. |

## Comisiwn llinol yn gyntaf

| Disgrifiad byr (yn ôl trefn rhyddhau) | Disgrifiad o batrwm rhyddhau teitlau | Cymhwysedd ar gyfer cwota |
|---|---|---|
| Rhyddhau'n llinol am y tro cyntaf ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.<br>Rhyddhau ar-lein.<br>Dim ailddarllediad llinol. | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy ei darlledu ar y brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.<br>2. Yna mae'r rhaglen ar gael drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny. | Dim ond unwaith y gall y rhaglen gyfrif yn erbyn cwota. |
| Rhyddhau'n llinol am y tro cyntaf ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.<br>Rhyddhau ar-lein.<br>Ailddarllediad llinol ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod **yr un flwyddyn galendr.** | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy ei darlledu ar y brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.<br>2. Yna mae'r rhaglen ar gael drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>3. Bydd y rhaglen yn cael ei hailddarlledu'n ddiweddarach ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod yr un flwyddyn galendr. | Gall y rhaglen gyfrif ddwywaith yn erbyn cwota – unwaith fel y darllediad llinol cyntaf, ac eto fel ailddarllediad llinol. |
| Rhyddhau'n llinol am y tro cyntaf **ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.**<br>Rhyddhau ar-lein.<br>Ailddarllediad llinol ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus **yn ystod y flwyddyn galendr ganlynol.** | 1. Mae'r rhaglen ar gael am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn galendr drwy ei darlledu ar y brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.<br>2. Yna mae'r rhaglen ar gael drwy'r gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny.<br>3. Bydd y rhaglen yn cael ei hailddarlledu'n ddiweddarach ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y flwyddyn galendr ganlynol. | Dim ond unwaith y gellir cyfrif y rhaglen yn y flwyddyn galendr gyntaf.<br>Gellir cyfrif y rhaglen eto yn y flwyddyn galendr ganlynol, fel ailddarllediad llinol. |